Hawdd ei Ddeall

# Cartrefi Nid Ysbytai

## Manifesto Bywydau Wedi'u Dwyn

**Y pethau sydd arnon ni eisiau newid ar gyfer pobl ag anabledd dysgu a phobl ag awtistiaeth sy'n byw mewn ysbytai yng Nghymru**

Cafodd y ddogfen yma ei hysgrifennu gan 'Grŵp Ymgyrch Bywydau Wedi'u Dwyn'. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Manifesto Bywydau Wedi'u Dwyn'.

Ebrill 2024

# Ynglŷn â ni



Rydyn ni'n deuluoedd. Mae gennym ni bobl annwyl ag anabledd dysgu neu sy'n awtistig sy'n:



- byw mewn gwasanaethau ysbyty arbenigol
- neu sydd wedi byw ynddyn nhw yn y gorffennol.



Mae gwasanaethau ysbyty ar gyfer pobl sydd ag angen triniaeth ysbyty. **Ni ddylai pobl fod yn byw ynddyn nhw.**




Mae arnon ni eisiau i bethau newid.




Mae pobl, grwpiau a mudiadau sy'n ein cefnogi yn ymuno â ni.

# Y pethau sydd arnon ni eisiau

Mae arnon ni eisiau i Lywodraeth Cymru:



1. **Ddweud wrthyn ni faint o bobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig sydd mewn ysbytai.**




2. **Egluro sut y byddwch chi'n dod a phlant a phobl ifainc yn agosach at gartref ac allan o'r lleoedd hyn.**




3. **Gwrando arnon ni a deall beth y mae teuluoedd yn ei ddioddef.**




4. **Gweld nad ydy neilltuo pobl i ysbyty am fod gwasanaethau yn methu cwrdd â'u hanghenion yn ateb i hyn.**

> Mae **neilltuo pobl i ysbyty** yn meddwl gwneud i chi aros mewn ysbyty pa un a ydych chi'n cytuno i hynny ai peidio. Mae'n defnyddio deddf sy'n cael ei alw'n Ddeddf Iechyd Meddwl.



5. **Gweithiwch gyda ni a phobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig i wneud cefnogaeth yn well support better.**

# Mwy am y pethau sydd arnon ni eisiau

## 1. Dywedwch wrthyn ni faint o bobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig sy'n aros mewn ysbytai.



Does gennym ni ddim digon o wybodaeth glir am hyn.




Mae arnon ni eisiau gweld **Arsyllfa Genedlaethol Anabledd Dysgu**. Byddai hwn yn lle i gasglu a rhannu gwell gwybodaeth am bobl ag anableddau dysgu.

## 2. Eglurwch sut y byddwch chi’n dod â phlant a phobl ifainc yn agosach at gartref ac allan o’r lleoedd hyn.




Does dim cynllun clir ar gyfer gwneud i’r pethau hyn ddigwydd.




Yn 2020 roedd arolwg oedd yn cael ei alw’n **Gwella Gofal, Gwella Bywydau**. Roedd hwn yn edrych sut roedd hi ar bobl ag anabledd dysgu yn yr ysbytai hyn.



Roedd syniadau ynddo ynglŷn â’r pethau sydd angen newid ond nid oedd yn dweud sut na phryd.



Rydyn ni’n meddwl y gallai arian gael ei ddefnyddio’n well i helpu pobl i aros gartref.

# 3. Gwrandewch arnon ni a deall beth y mae teuluoedd yn ei ddioddef.



Rydyn ni’n poeni na fydd gwasanaethau cymdeithasol a byrddau iechyd yn gwrando arnon ni. Mae arnon ni eisiau iddyn nhw ein trin ni’n well.



Weithiau dydyn ni ddim yn dweud wrthyn nhw pa mor ddrwg ydy pethau na faint rydyn ni’n brifo. Dydyn ni ddim yn meddwl eu bod nhw’n deall.



Mae arnon ni eisiau iddyn nhw gymryd nodiadau mewn ffordd well wrth iddyn nhw wneud penderfyniadau ynglŷn â’n plant. Mae arnon ni eisiau gweld y nodiadau hyn.



Mae arnon ni eisiau gweld a siarad â’n plant yn fwy aml. Mae arnon ni eisiau i chi wrando arnon ni a’n trin ni’n deg.



Rydyn ni’n meddwl dylai ein plant gael help cyfreithiol pan fydd ei angen arnyn nhw.

## 4. Edrychwch i weld nad neilltuo pobl oherwydd bod gwasanaethau yn methu cwrdd â’u hanghenion ydy’r ateb i hyn.




Mae’n rhaid i feddygon a gwasanaethau ddilyn y gyfraith. Mae’n rhaid i’r Llywodraeth wneud mwy i wneud yn siŵr eu bod nhw’n gwneud hynny.



Dylai pobl gael y gefnogaeth iawn. Ddylen nhw ddim cael eu cadw mewn lle sydd ddim yn iawn ar eu cyfer nhw.

## 5. Gweithiwch gyda ni a phobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig i wneud cefnogaeth yn well.



Gall grwpiau pobl anabl roi cyngor a help.



Gallwn ni i gyd weithio gyda'n gilydd i ddod o hyd i well ffyrdd o wneud pethau.



Dylai pobl gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw, gartref ac yn eu cymuned.



Ddylen nhw ddim byw mewn gwasanaethau ysbytai arbenigol oherwydd nad oes dim byd gwell ar eu cyfer.




**Cartrefi nid ysbytai.**

# Geiriau anodd

## Neilltuo pobl i ysbyty

Mae neilltuo pobl i ysbyty yn meddwl gwneud i chi aros mewn ysbyty pa un a ydych chi’n cytuno i hynny ai peidio. Mae’n defnyddio deddf sy’n cael ei alw’n Ddeddf Iechyd Meddwl.

# Cartrefi Nid Ysbytai




Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl ‘**Grŵp Ymgyrch Bywydau Wedi’u Dwyn**’. I gael mwy o wybodaeth:

**Gwefan:** stolenlives.blog

**Ebost:** StolenLivesWales@gmail.com

**Facebook:** Stolen Lives Wales

#StolenLivesWalesProtest

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Gwnaeth Hawdd ei Ddeall Cymru y ddogfen yma yn Hawdd ei Deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi’n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yn y fan yma.

Rhif Trwydded Photosymbols 403527247